**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 15**
**Ymateb gan: NPTC Grŵp Colegau**
**Response from: NPTC Group of Colleges**

---

**Cyflwyniad:**

Daeth Grŵp Colegau NPTC i fodolaeth ar 1 Awst 2013 o ganlyniad i'r uno rhwng Coleg Castell-nedd Port Talbot, a oedd yn wreiddiol yn ddau goleg ar wahân tan 1999, Coleg Afan a Choleg Castell-nedd: a Choleg Powys, a oedd yn wreiddiol yn dri choleg tan 1989, Coleg Trefaldwyn, Coleg Sir Faesyfed a Choleg Howell Harris. Mae'r Grŵp yn cynnwys dros draean o fàs tir Cymru. Mae'n gweithredu fel pedwar coleg cymunedol: Coleg Afan, Coleg Bannau Brycheiniog, Coleg Castell-nedd a Choleg y Drenewydd. Mae gan y Grŵp ganolfannau llai hefyd gan gynnwys: Coleg Pontardawe; Canolfan Adeiladu Maesteg; Canolfan Adeiladu Abertawe; ac Academi Chwaraeon gwbl fodern ym Mharc Llandarsi.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn ddarparwr addysg ôl-orfodol sy'n darparu llawer iawn o addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys cymwysterau UG / Safon Uwch a chymwysterau TGAU yn yr Academi Chweched Dosbarth. Mae'r Grŵp yn darparu ystod eang o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer diwydiant a busnes ledled Cymru a Lloegr drwy'r Uned Datblygu Busnes. Mae'r Coleg hefyd yn arwain Academi Sgiliau Cymru, partneriaeth o wyth darparwr hyfforddiant profiadol iawn sy'n cyflwyno contract seiliedig ar waith sylweddol rhyngddynt.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cefnogi'r Bil arfaethedig i raddau helaeth. Wrth gyflwyno ein hymateb i'r pwyllgor, rydym eisiau gweld cryfhau ar y darpariaethau yn y Bil a sicrhau bod cydraddoldeb rhwng unrhyw ofynion a bennir i Addysg Bellach a gofynion Chweched Dosbarth ac addysg uwch.

**Materion Allweddol:**

**Rhan 2: Cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol**

Cydnabyddir y bydd gan y Comisiwn nifer o ffyrdd o oruchwylio darparwyr addysg drydyddol gan gynnwys cynnal cofrestrfa.

Gofynnir am eglurder pellach mewn perthynas â Chymal 25(1)(b) sy'n nodi rheidrwydd "effeithiolrwydd llywodraethu" y sefydliad, fel amod ar gymeradwyo cofrestriad. Mae gweithredu'r agwedd hon yn arwain at sawl cwestiwn gan gynnwys a fydd cod llywodraethu cyffredinol yn cael ei lunio a sut bydd yn wahanol i'r canllawiau cyfredol.

Bydd cynnwys a chyfansoddiad Byrddau amrywiol y sefydliadau’n amrywio'n fawr ymhlith darparwyr e.e. uchafswm tymhorau gwasanaethu ar gyfer ymddiriedolwyr.

Bydd cod llywodraethu cyfunol yn gofyn am amser ac arbenigedd sylweddol i sicrhau bod hyn yn cael ei gymhwyso ar draws pob sefydliad. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn feddu ar y sgiliau angenrheidiol i ddyfarnu ynghylch yr hyn sy'n llywodraethu effeithiol. Cymal 43 - mae angen eglurder pellach hefyd mewn perthynas â phwy fydd yn dyfarnu apeliadau gan y Bwrdd Llywodraethu i adolygu penderfyniadau cofrestru.

**Rhan 2: Ymyriadau perthnasol i ymddygiad sefydliadau addysg bellach**

Mae angen eglurder pellach mewn perthynas â Chymalau 67 a 68 oherwydd gellid eu dehongli fel diddymu'r rhyddid a'r gofynion a bennir gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014. Bydd angen eglurder o ran sut mae hyn yn effeithio ar statws AB NPISH.

Mae angen eglurder pellach hefyd ynglŷn â sut mae hyn yn rhyngweithio ochr yn ochr â rôl LlC fel Prif Reoleiddiwr y sefydliadau AB fel elusennau eithriedig. Bydd angen adolygiad o gyfansoddiad y Sefydliadau os bydd y cymal hwn yn cael ei weithredu.

Er gwaethaf creu'r rheoleiddiwr newydd, mae'r Bil yn neilltuo cryn bŵer yn ôl i LlC. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar sut mae CTER a sefydliadau unigol yn rheoleiddio eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau. Nodir yr amodau ynghylch ymreolaeth sector a rhyddid academaidd yn y canllawiau, ond ni chyfeirir at yr amodau hyn yn y Bil ei hun ac felly ni fyddant yn rhwymo yn gyfreithiol.

**Rhan 2: Sicrwydd Ansawdd a Gwella Trefniadau Ansawdd**

Croesewir cynhyrchu fframwaith sicrwydd ansawdd a dull cyson o weithredu gydag ansawdd ar draws y sector addysg drydyddol. Y gobaith yw y bydd

cytuno ar gynllun arolygu blynyddol, ar y cyd â'r corff dynodedig, yn sicrhau dull unedig o sicrhau ansawdd.

Mae'r Bil yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng y prosesau sicrhau ansawdd mewn addysg bellach ac addysg uwch. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau a'r prosesau arolygu / sicrhau ansawdd yn amrywio'n sylweddol rhwng Estyn a QAA. Mae'r cyntaf yn cynnwys llawer o arsylwi gwersi yn ystod y broses arolygu, ond nid yw hynny'n digwydd yn yr olaf. Yn yr un modd, hyd yn oed o fewn y cylch arolygu cyfredol, prin yw'r adrodd ar berfformiad y ddarpariaeth ôl-16 sydd wedi'i chynnwys yn y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion. Mae angen sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng prosesau sicrhau ansawdd AB, Chweched Dosbarth ac AU a gofynnir i'r agwedd hon gael ei hegluro yn y Bil.

**Rhan 6: Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ac Asesu Cystadleuaeth**

O dan y Comisiwn pennir dyletswydd ar ddarparwyr i fonitro a rhannu data ar draws y sector. Croesewir hyn yn arbennig mewn perthynas â darparwyr ôl-16 o ran derbyn gwybodaeth am bontio a chyflawniad mewn arholiadau yn gyson ac yn brydlon.

Mewn perthynas â'r agweddau ar 'Asesu Cystadleuaeth' a gynhwysir yn y Bil, rhagwelir y byddai angen i'r agwedd hon gael ei rheoli'n ofalus gan y Comisiwn. Gofynnir am broses dryloyw, gyda meini prawf clir ac esboniadau llawn, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i 'wrthod yn y pen draw rywfaint o'r cyllid a ddarperir i gefnogi cyflwyno cwrs penodol'.

**Dysgu Seiliedig ar Waith: Prentisiaethau**

Mae croeso mawr i sefydlu system brentisiaeth benodol yng Nghymru sy'n hyblyg ac yn ymatebol i anghenion dysgwyr a chyflogwyr sy'n cefnogi economi Cymru. Croesewir hefyd y gofyniad i Fframweithiau Prentisiaethau fod yn hyblyg i fodloni technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Fodd bynnag, er mwyn datblygu Fframweithiau newydd, rhaid cydnabod bod angen mewnbwn cyflogwr sy'n cynrychioli'r rhwydwaith cyflogwyr cyfan, nid sefydliadau canolig i fawr yn unig. Rhaid i Fwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru sicrhau bod y dystiolaeth a ddarperir yn adlewyrchiad cywir o anghenion y diwydiant ac nid dim ond cynrychiolaeth o'r cyflogwyr hynny a oedd yn gallu cwblhau arolygon RLSP.

Nid yw'n glir a oes ffi am y cofrestriad newydd ac a fydd y gofyniad i gaffael ar gyfer y contractau dysgu seiliedig ar waith yn parhau. Gofynnir i ystyriaeth

briodol ac eglurder pellach gael eu rhoi o ran y pwyntiau hyn wrth weithredu'r Bil.

**Rhan 7: Llywodraethu'r Comisiwn**

Mewn perthynas â llywodraethiant y Comisiwn, byddai Opsiwn 2 (yr opsiwn a ffafrir) yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael eu dewis ar sail eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad, yn hytrach na chynrychioli sector penodol. Fodd bynnag, er na ddylai aelodau bwrdd gynrychioli sectorau, rhaid i'r matrics sgiliau gofynnol gynnwys sgiliau a gwybodaeth o wahanol sectorau.

Mae hefyd yn hanfodol bod llais y myfyriwr yn nodwedd gref o fewn llywodraethu. Byddem yn anghytuno â'r safbwynt y dylai myfyrwyr fod yn arsylwyr yn hytrach nag yn aelodau o'r Bwrdd. Mae angen safbwynt y dysgwyr, ac mae'n syndod y byddai'r opsiwn a ffefrir yn dadlau yn erbyn hyn. Mae'r Coleg hwn yn anghytuno â'r safbwynt hwn gan fod Grŵp Colegau NPTC wedi canfod bod llais y dysgwr wedi gwella'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

At hynny, nid yw'n ymddangos bod opsiwn 2 yn cynnwys mewnbwn pwyllgor archwilio. Argymhellir ailystyried hyn i sicrhau y gellir cynnal craffu annibynnol effeithiol.

**Ystyriaethau Ariannol**

Mae gormod o fympwyon ac elfennau anhysbys i werthfawrogi'r effaith ariannol yn llawn, ond mae'n anochel y bydd mwy o reoliadau a chyfundrefnau cydymffurfio'n arwain at gostau ychwanegol i'w gweinyddu.

Mae'r Bil yn cynnig ymyriadau Gweinidogol a Chomisiwn ar draws sawl maes gan ddeall bod y Comisiwn yn gallu ymateb yn gyflym i newidiadau mewn blaenoriaeth. Er bod hyn i'w gymeradwyo, mae goblygiadau ariannol i hyn; yn y sector addysg drydyddol rydym wedi trefnu contractau cyflogaeth academaidd yn genedlaethol nad ydynt yn ffafriol i batrymau gweithio blwyddyn anacademaidd; mae gan y mwyafrif o ddarparwyr lawer o adeiladau / cyfleusterau nad oes modd eu trawsnewid yn rhad; mae'r cyrff dyfarnu yn araf i gofleidio newid ac mae arnynt angen llawer o amser staff i symud ymlaen.

Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Bil yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ariannu darparwyr preifat anghofrestredig os oes prinder sgiliau penodol neu angen cenedlaethol. Gydag erthyglau newyddion diweddar sy'n peri pryder ynghylch dyfarnu contractau o dan amodau arbennig gan lywodraeth ganolog yn ystod y pandemig yn ffres yn y meddwl, mae'n ymddangos y gallai'r gallu hwn fod yn agored i gael ei gam-drin. Ar ben hynny, mae'n rhoi darparwyr cofrestredig dan anfantais, a fydd yn ysgwyddo costau wrth gynnal cymhwysedd, tra gall darparwr preifat gael ei 'ollwng' i mewn ac elwa o arian cyhoeddus gyda phroffil ansawdd heb ei brofi. Gallai hyn hefyd danseilio hygrededd y proffesiwn addysgu / darlithio. Os oes angen darpariaeth arbenigol, dylid gwneud hyn ar y cyd â darparwyr cofrestredig, a all oruchwylio gwaith is-gontractwyr preifat, os oes angen, i sicrhau cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a'r proffiliau gradd, ar draws yr holl ddarpariaeth ar lefel benodol.

O ran yr amodau cofrestru gorfodol cychwynnol a pharhaus, mae cynaliadwyedd ariannol wedi'i gynnwys yn briodol. Fodd bynnag, rhaid rhoi sicrwydd na fydd y sefydliadau hynny y mae'n ofynnol iddynt weithredu gydag aelodau cynllun pensiwn llywodraeth leol (ond heb gael lleisio eu barn am benderfyniadau gweinyddu / buddsoddi'r cynllun) yn cael eu cosbi am y cofnodion cyfrifyddu heb fod yn arian parod a'r diffygion cynllun posibl sy'n ofynnol o dan FRS102.

Mae hawl y Gweinidogion i ragnodi amodau cofrestru gorfodol cychwynnol a / neu barhaus ychwanegol, fel y disgrifir, yn amwys. Er y gallai fod angen hawl, mae angen amgylchiadau pendant lle byddai hyn yn digwydd a rhaid cael proses o ymgynghori a chymeradwyo dilys. Yn yr un modd â'r fanyleb 'Terfynau ffioedd' gan y Gweinidogion; bydd angen i'r rhain hefyd gael eu rheoli a'u gweithredu'n llym, mewn cytundeb â'r sector i sicrhau bod cyrsiau'n parhau'n hyfyw yn ariannol. Tybir bod hyn ar gyfer cyrsiau a ariennir gan neu drwy LlC yn unig ac na all effeithio ar ddarpariaeth fasnachol breifat a wneir gan ddarparwyr cofrestredig.

Mae'n amlwg y bydd gan y Comisiwn yr hawl i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau, ond mae angen diffinio adnabod darpariaeth fel gwariant 'anghymesur' yn gliriach, er mwyn diogelu darparwyr rhag toriadau annisgwyl, sydyn mewn cyllid.

Nid yw'r Bil yn mynd i'r afael â mater cyllido allweddol mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Mae'r system bresennol ar gyfer Addysg Bellach yn 'gwobrwyo' darparwyr mewn ardaloedd lle mae galw eisoes am ddarpariaeth

yn y Gymraeg a staff sy’n gallu darparu. Ni fydd hyn yn cynyddu’r ddarpariaeth yn y Gymraeg yn sylweddol, mae angen targedu'r cyllid i gefnogi'r darparwyr mewn ardaloedd sydd â dwysedd isel o siaradwyr Cymraeg, i ddatblygu sgiliau, adnoddau a galw.

Mae'r Bil hefyd yn methu mynd i'r afael â'r mater o sicrhau cydraddoldeb rhwng y driniaeth o ran gwahanol fathau o ddarparwyr ôl-16. Un enghraifft o hyn yw TAW na ellir ei adfer. Mae colegau'n dioddef o effeithiau hyn ond nid felly’r 6ed dosbarth mewn ysgolion. Er na all y comisiwn newid deddfau'r DU ar TAW, dylid ystyried cynyddu cyllid colegau AB, er mwyn adlewyrchu cost gynyddol deunyddiau cysylltiedig â chyrsiau a chostau gweithredu cyfleusterau.

**Asesiadau Effaith Integredig**

Cydnabyddir bod asesiadau effaith penodol wedi'u cynnal sy'n cwmpasu'r Bil. Fodd bynnag, wrth adolygu'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, ychydig iawn o gyfeirio sydd at rai nodweddion gwarchodedig a dim dadansoddiad o ddata i gefnogi unrhyw gasgliadau. Yn ogystal â hyn mae'n ymddangos bod diffyg ffocws ar iechyd a lles y meddwl, sy'n feysydd y mae angen eu blaenoriaethu'n drwm wrth symud ymlaen.

**Casgliad**

Mae Grŵp Colegau NPTC yn croesawu cyflwyno'r Bil. Mae datblygiad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i ddarparu system addysg drydyddol, wedi'i chanoli o amgylch y dysgwr a darparu rhagoriaeth, yn uchelgeisiol. Mae angen y cysyniad o feddwl traws-sector, synergedd a chydweithredu.

Er bod yr uchelgais hwn yn cael ei groesawu, mae Grŵp Colegau NPTC yn bryderus am yr amserlen fer sydd wedi’i neilltuo i’r ymgynghori ar egwyddorion cyffredinol y Bil o ystyried ei natur hir a chymhleth a'i ddogfennau cysylltiedig.

Rhagwelir y bydd y gweithredu’n gofyn am bontio sylweddol a bod yn agored i adolygu lle bo hynny'n briodol.

Mark Dacey

Prif Swyddog Gweithredol / Pennaeth

Grŵp Colegau NPTC

Mark.Dacey@nptcgroup.ac.uk

04.01.2022

**Coleg Castell-nedd,** Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd, SA10 7RF
**Neath College,** Dwr-y-Felin Road, Neath, SA10 7RF
Tel/Ffôn **01639 648000**
Fax/Facs **01639 648009**
E-mail/E-bost **enquiries@nptcgroup.ac.uk**
**www.nptcgroup.ac.uk**

**Mark Dacey** BSc., MSc., Dip.BS, AClarb, MCIOB, FCABE, FCMI, FRICS
Pennaeth / Prif Weithredwr - Grŵp Colegau NPTC
Principal / CEO - NPTC Group of Colleges

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb oedi.
We welcome correspondence in Welsh and we will respond to it in Welsh without delay.